

celf

Artist y pell a'r agos.

Luned Aaron

Mae'r arlunydd Iwan Bala yn fwy cynhyrchiol nag erioed, er gwaethaf, neu efallai oherwydd cyfnod o driniaeth meddygol yn gynharach eleni. Bu'n sôn wrth *Barn* am yr hyn sy'n ei yrru i greu ac fel y mae'n dal i gredu'n gryf mewn cynnal trafodaeth ar gelfyddyd Gymreig ar bob llwyfan posibl.

Artist sy'n rhoi lle blaenllaw i'r iaith Gymraeg yn ei weithiau ydi Iwan Bala. Ers dyddiau cynnar ei yrfa fel artist yn y 1980au, bu geiriau'n gatalydd creadigol pwysig iddo, gan ymddangos yn y rhan fwyaf o'i greadigaethau. Yn sicr, mae ein chwedlau a'u perthnasedd i Gymru heddiw yn ysgogiad geiriol a thematig i'r artist o Feirionnydd, ond yn ddiweddar mae Iwan wedi mwynhau cydweithio fwyfwy gyda rhai o'n beirdd amlycaf.

Ffrwyth llafur cywaith gyda Menna Elfyn oedd *Nodiadau Maes* – prosiect a gaiff ei ddisgrifio fel 'nodiadau anthropolegol'. Y sbardun dechreuol i Iwan oedd dod ar draws nodiadau personol o eiddo'i ddiweddar dad a llyfrau emynau ei fam a fu'n organydd yng nghapel Tegid, Y Bala, am flynyddoedd.

'Ro'n i'n darganfod bod y nodiadau yma'n wrthrychau dwys rywsut,' eglura Iwan yn synfyfyriol, wrth iddo bwysu ar ddesg hynafol wedi'i gorchuddio â chreiriau a llyfrau yn ei stiwdio ym Mae Caerdydd. 'Felly dyma fynd ati i'w sgrifennu nhw i lawr. Ro'n i'n meddwl bod sgrifennu'r geiriau'n ddigon, yn hytrach na'u disgrifio a'u dylunio nhw hefyd; eu sgrifennu nhw mewn arddull fyddai'n awgrymu mai dyma'r tro cynta' iddyn nhw gael eu sgrifennu, gan groesi geiriau allan ac ati. Ro'n i am ddangos y broses, nid dim ond y diweddglo.' Canlyniad y cywaith fu greu gweithiau myfyrdodus a threiddgar oedd yn taro tant mewn modd eithriadol o bersonol, a hynny ar ffurf achau, enwau lleoedd coll ac argraffiadau personol o'i eiddo ef a Menna Elfyn.

Cafodd cywaith y ddau ei weld yn ystod taith yng Nghymru ac Iwerddon yn ogystal. Dyma fardd ac artist sydd yn eu helpen yn codi ymwybyddiaeth o Gymru yn rhynglwadol. Ac er y gellid dadlau fod gweledigaeth artistig Iwan Bala yn un gymharol leol ar un olwg, nid artist plwyfol mohono o bell ffordd. Dyma artist y fro agos a'r gorwelion eang – un sydd â'i draed yn sefyll yn gadarn ar dir Gwalia, ond sydd wedi gweithio ac arddangos yn helaeth mewn sawl gwlad a chyfandir, gan gynnwys

Zimbabwe, yr Unol Daleithiau, Mecsico a'r Weriniaeth Tsiec. Ychydig fisoedd yn ôl, roedd gwaith o'i eiddo yn rhan o arddangosfa deithiol yn Tsieina ac Awstralia, a geiriau beirdd megis Siôn Cent yn amlwg yn y gwaith hwnnw.

Yn sicr, fe wêl Iwan berthnasedd ei sefyllfa ef fel artist o Gymro i drafodaeth ar themâu byd-eang. Fel y dywed ar ei wefan, 'Mae fy ngwaith yn ymdrin â thirwedd; tirwedd diwylliant, cof, dychymyg. Tirwedd hunaniaeth. Rwyf yn ymdrechu i ymchwilio ac i greu ryw fath o fap o'r dirwedd bersonol yma, fy ynys fechan, er mwyn ei lleoli o fewn tirwedd ehangach y byd mawr.'

Ai gweithred wleidyddol ydi creu iddo, felly? Mae'n ateb yn gadarnhaol, gyda phendranrwydd. 'Does dim dianc rhag hynny, gan fod unrhyw fynegiant o hunaniaeth leiafrifol yn weithred wleidyddol. Ond dwi ddim yn mynd ati i greu propaganda yn fwriadol. Mae'n digwydd yn reddfol.'

Mae'n pwysleisio'r elfen reddfol hon yn ei arlunio. Nid yn annhebyg i'r modd y darganfu Kate Roberts bod rhaid iddi 'ysgrifennu neu fygu', mae Iwan yntau'n teimlo rheidrwydd i greu'n weledol. 'Dwi'n teimlo'n anfodlon os nad ydw i'n creu gwaith celf. Mae'n sicr yn gathartig, ac yn ddiweddar mae'r stiwdio yma wedi bod yn fendith.'

Wrth sôn am y stiwdio fel bendith, cyfeirio y mae at gyfnod o salwch yn ei hanes yn gynharach eleni – cafodd driniaeth at gansr ac mae'n dweud bod gallu mynd i'r stiwdio i weithio ar ei luniau wedi bod nid yn unig yn ffordd o'i gadw'i hun yn brysur rhag hel meddyliau ond hefyd yn help i wella. 'O safbwynt y gwaith celf, roedd y cyfnod o chwe mis o'r gwaith yn well nag ysgoloriaeth!' ychwanega gyda gwên. Ym mis Mehefin, y diwrnod cyn iddo fynd i'r ysbyty am lawdriniaeth, enillodd wobr yn arddangosfa Artist y Flwyddyn yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, ac yn yr Eisteddfod fis Awst ef oedd enillydd Gwobr Ifor Davies sy'n cael ei rhoi bob blwyddyn am waith yn Arddangosfa Agored y Lle Celf sy'n cyfleu ysbryd y frwydr dros iaith, diwylliant a gwleidyddiaeth Cymru.

Mae'r holl waith sydd yn ei stiwdio, yn lluniau ar y gweill a rhai gorffenedig wedi eu fframio, hefyd yn tystio i gyfnod cynhyrchiol iawn yn ei hanes. Yn wir, mae'n rhyfeddol o doreithiog o ystyried ei fod hefyd yn darlithio'n llawn-amser ers 2008 yn Ysgol y Celfyddydau Creadigol ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. A dyna ddychwelyd unwaith eto at ddilêit yr artist yn yr iaith Gymraeg: 'Mae'r adran wedi sefydlu cwrs celfyddyd BA ac MA trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn hyn,' eglura'n afieithus.

Mae'n amlwg ei fod yn mwynhau addysgu a hybu eraill i greu, ac mae wrth ei fodd hefyd yn ysgrifennu am ei gyfoeswyr ar ffurf erthyglau a llyfrau, yn ogystal â sylwebu ar eu gwaith. 'Pan ddechreuais i fel artist yn yr wythdegau, ro'n i'n teimlo nad oedd yna fframwaith i artistiaid oedd yn

awyddus i aros yng Nghymru,' eglura. 'Pan adewais y coleg, roedd 'na ddyrnaid o artistiaid wedi ymgasglu yng Nghaerdydd, ond doedd yna ddim fframwaith, a doedd dim yn cael ei sgrifennu am ein celfyddyd gyfoes. Mi wellodd pethau pan ysgrifennodd Peter Lord am hanes ein celfyddyd weledol – roedd hynny'n gymorth i ni graffu ar ein diwylliant ein hunain a'i werthfawrogi, yn lle gadael i rywrai o Lundain ei bwysu a'i fesur o bell.'

Wedi'i galonogi gan drafodaethau brwdfrydig Peter Lord, aeth Iwan ati i ysgrifennu am waith cyd-artistiaid, yn enwedig y rheini oedd yn sbarduno trafodaeth am Gymru a hunaniaeth Gymreig yn eu gweithiau gweledol. Mae'n parhau i hybu'r drafodaeth, ac mae ei gyfrolau, *Darllen Delweddau*, *Certain Welsh Artists: Custodial Aesthetics in Contemporary Welsh Art a Here and Now: Essays on Contemporary Art in Wales*, yn gyfraniadau gwerthfawr ati.

Beth am y sefyllfa gyfredol, felly? Sut mae pethau'n edrych o ran ein celfyddydau gweledol trwy wydrau crwn Iwan Bala? 'Mae pethau wedi gwella llawer dros y pum mlynedd ar hugain diwethaf,' pwysleisia. 'Mae'r *Artes Mundi* a'r gynrychiolaeth o Gymru yn y *Biennale* Celf yn Fenis yn gamau pwysig ymlaen, ond mae hi'n frwydr barhaus gyda'r holl doriadau ariannol mewn llywodraeth leol a chenedlaethol. Felly mae'n rhaid i ni beidio â gorffwys ar ein rhwyfau. I Gymru allu goroesi, mae'n rhaid inni gael cenedlaeth newydd fydd yn dal ati, yn torchi llewys ac yn mynnu dyfodol i'n cenedl. Felly hefyd ym myd celf.'

Bydd gweithiau gan Iwan Bala yn cael eu harddangos ym Mhlas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog o 1 Chwefror hyd 16 Mawrth 2014 fel rhan o ddatliadau canmlwyddiant geni R. S. Thomas. Bydd gwaith Iwan yn rhan o arddangosfa ehangach fydd yn rhoi cyfle i artistiaid ymateb i gyfraniad R. S. Thomas.

Bydd arddanogsfa unigol ganddo, *Words/Geiriau*, yn Oriel Theatr Clwyd o 3 Mai hyd 7 Mehefin.